

**Rhaglen Ddatgarboneiddio**

# Cylchlythyr

Ebrill 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Croeso

Croeso i rifyn diweddaraf Newyddlen y Rhagle Datgarboneiddio sy'n rhoi sylw i'r Cynllun Carbon Isel cyntaf ar gyfer y cyfnod cyllidebol cyntaf (2016-2020).

# Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

## Y Cynllun

Ar 21 Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Carbon Isel cyntaf, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80% ar gyfer y flwyddyn 2050 gyda system o dargedau allyriadau interim a chyllidebau carbon. O dan Adran 39 o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol

sy'n nodi eu polisïau a'u cynigion ar gyfer bodloni'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw.


Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yw ein cynllun cyntaf ar gyfer ein cyllideb gyntaf (2016-2020). Mae'n amlinellu dull Llywodraeth Cymru o leihau allyriadau a throsglwyddo i economi carbon isel mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o fanteision ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach, iachach a mwy cyfartal.

Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd 100 o bolisïau a chynigion ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r UE lle mae datgarboneiddio wedi'i integreiddio naill ai fel canlyniad uniongyrchol neu fudd ehangach.

Mae gweithredu yn ymestyn ar draws sectorau ac yn annog arweinyddiaeth, cydweithio a chyfranogiad ar bob lefel. Mae llawer o'r polisïau'n canolbwyntio ar helpu'r trawsnewid i economi carbon isel, gan sicrhau trosglwyddio teg a chyfiawn a gwneud y gorau o gyfleoedd lles i bawb.

## Trosolwg o'r Cynllun

- Mae'n gosod camau gweithredu ar unwaith ond hefyd yn gosod cyfeiriad ar gyfer y tymor hir trwy osod y sylfeini ar gyfer Cymru i drosglwyddo i gymdeithas carbon isel
- Yn cynnwys 100 o bolisïau a chynigion
- Yn cynnwys 76 o bolisïau presennol mae gan rai ohonynt effaith naill ai lleihau allyriadau uniongyrchol neu fudd ehangach lleihau allyriadau. Mae llawer wedi cael eu cyflwyno neu eu diwygio ers dechrau'r gyllideb garbon fel y Cynllun Gweithredu Economaidd fel Polisi Cynllunio Cymru
- Yn cyflwyno 24 o gynigion a fydd yn cael eu harchwilio neu eu datblygu ymhellach i weithredu polisi yn y dyfodol.
- Yn nodi'r camau trawsbynciol yr ydym yn eu cymryd trwy integreiddio datgarboneiddio ar draws polisi'r llywodraeth a chyflawni
- Yn cynnwys pobl wrth wraidd meddwl gan gydnabod egwyddor atal a thegwch fel rhan o'r newid
- Yn nodi sut yr ydym yn meddwl yn fwy cyfannol gan gydnabod y systemau ehangach a chydgysylltiedig
- Toriadau ar draws holl bortffolios a lefelau cymdeithasau'r Gweinidog gan bwysleisio rôl hanfodol arweinyddiaeth, cydweithredu a chynnwys
- Yn dangos cyfrifoldeb byd-eang Cymru wrth weithio gyda phartneriaid




## Mae rôl gan bob un ohonom

Mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus, busnes a chymunedau fabwysiadu rolau arweinyddiaeth. Mae llawer o'r camau pwysig yn y Cynllun yn ymestyn ar draws y llywodraeth, y sector cyhoeddus ehangach a busnes. Mae gan gymunedau, y trydydd sector a phobl rolau hanfodol hefyd.

Mae lleihau allyriadau symud tuag at economi carbon isel yn cynnig cyfleoedd enfawr i greu economi bywiog a chyfiawn. Er bod Brexit yn creu ansicrwydd, mae Llywodraeth Cymru yn glir bod y llwybr i Gymru carbon isel yn canolbwyntio ar lles ein pobl, iechyd ein heconomi, ac yn diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol. Mae hwn yn gyfnod hollbwysig i Gymru. Edrychwn ymlaen yn awr at weithio gyda'n holl bartneriaid yma ac ar y llwyfan rhyngwladol i ymateb i her newid yn yr hinsawdd.
Gallwch weld copi llawn o'r Cynllun, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel [yma].

# Y Digwyddiad

## Roedd lansiad Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel ar fore 21 Mawrth.




Lansiwyd y cynllun gan Prif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford yng Ngwesty'r Exchange (y Gyfnewidfa Lo gynt) ym Mae Caerdydd. Ar un adeg, y Gyfnewidfa Lo oedd calon y fasnach lo fyd-eang – tynnwyd llun o arweinwyr carbon isel Cymru fel symbol o ymrwymiad Cymru i symud ymlaen.

Daeth dros 250 o bobl o bob sector yng Nghymru i'r digwyddiad. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sion Sleep o raglen Arweinyddiaeth Amgylcheddol Uprising i bobl ifanc, Peter Davies yn cynrychioli'r trydydd sector a chymunedau  Chris Williams ar ran y sector busnes a'r CBI a Lorraine Whitmarsh yn siarad am newid ymddygiad. Dilynwyd y lansiad gan Ddigwyddiad Arweinwyr Sector Cyhoeddus yn y prynhawn. Gallwch weld y digwyddiad cyfan drwy'r ddolen yma.

## Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Roedd sesiwn y prynhawn yn ymroddedig i rôl arweinyddiaeth sector cyhoeddus Cymru. Yn ystod yr anerchiad agoriadol, cyflwynodd Andy Middleton o TYF 'Pioneers of the Possible' cyn sesiwn ryngweithiol i annog cydweithio ar draws y sector cyhoeddus o amgylch y pedair thema sef Trafnidiaeth a Symudedd, Adeiladau, Caffael a Defnydd Tir. Wedyn disgrifiodd Dr Tracey Cooper, CEO Iechyd Cyhoeddus Cymru ei phrofiad personol o arwain y gwaith o gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol drwy fabwysiadu dulliau arloesol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym yn bwriadu cynnal sesiwn ryngweithiol arall yng Ngogledd Cymru a byddwn yn rhannu cynhyrchion y ddwy sesiwn gyda'r cyfranogwyr. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran ac i Dr Jane Davidson am gadeirio sesiynau'r bore a'r prynhawn.

Meddai'r Athro Lorraine Whitmarsh, Cyfarwyddwr newydd y Ganolfan Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol:

“Er bod momentwm rhyngwladol bellach ar weithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae'n amlwg na fydd targedau hollbwysig, fel cadw’r cynnydd yn nhymheredd y byd dipyn yn llai na 2 radd Celsius o gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol, yn cael eu cyrraedd heb newidiadau sylfaenol ym mhob rhan o gymdeithas.

“Yn y Ganolfan rydym yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn argyfwng sy'n gofyn am weithredu ar raddfa llawer mwy nag a welwyd hyd yma. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn cydnabod bod gan bawb gyfraniad i’w wneud. Byddwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol o sut gallwn fyw'n wahanol ac yn well, mewn ffyrdd sy'n bodloni'r angen am y gostyngiadau systemig, dwfn a chyflym hyn mewn allyriadau.”

*“Mae'n bwysig iawn bod gan bobl ifanc lais o ran y newid yn yr hinsawdd oherwydd ni yw'r bobl sy'n mynd i orfod delio â'r problemau yn y pen draw a'n plant hefyd. Nid ni yw'r bobl sy'n rhoi ein hunain yn y sefyllfa hon ond ni yw'r bobl sy'n gorfod ceisio sicrhau newid go iawn.” Sion Sleep, Uprising Cymru*

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, wedi cyfrannu at y cynllun, a siaradodd yn y lansiad gan ddweud:

“Mae angen i ni weld arweinyddiaeth feiddgar ar draws y Llywodraeth gyfan yn awr, a chan ein cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn creu newid sy'n galluogi pawb i wneud dewisiadau gwell sy'n lleihau ein hallyriadau cyfunol. O'r adeiladwyr a all helpu i wneud ein cartrefi a'n swyddfeydd yn fwy effeithlon o ran ynni, i'n cynllunwyr tref sy'n creu'r mannau rydym yn byw ynddynt ac yn teithio iddynt, i'r bobl ifanc a fydd yn talu gyda'u hiechyd a'u lles os na fyddwn yn gweithredu ar unwaith i sicrhau ein bod i gyd yn gwneud cyfraniad hanfodol wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd er budd pobl heddiw a chenedlaethau’r dyfodol.”

## Cyhoeddiadau allweddol

- Bydd Grŵp Climate Just yn cael ei sefydlu i gynghori Gweinidogion Cymru ar y newid i garbon isel. Rhennir gwybodaeth bellach yn fuan.

- Er mwyn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gymunedol y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi heddiw ei bod yn ymrwymo £4 miliwn arall i Gronfa Ynni Lleol Llywodraeth Cymru, gan alluogi i hyd yn oed mwy o brosiectau a arweinir gan y gymuned gael eu rhoi ar waith.

- Cyhoeddodd y Llywodraeth Cymru y bydd yn cynnal cynhadledd flynyddol. Bydd hyn yn dechrau yn yr hydref ac rydym yn ystyried sut i'w chynnal, gyda'r holl randdeiliaid yn cymryd rhan gyda ffocws ar themâu neu sectorau allweddol.

## Gwybodaeth arall

Erthygl BBC - https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47632409

Hashnod

#CarbonIselCymru

#ALowCarbonWales

**Hwyl fawr i Prys Davies**

Bydd llawer ohonoch yn gwybod eisoes bod Prys Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Datgarboneiddio ac Ynni yn gadael Llywodraeth Cymru ar 29 Mawrth i gychwyn swydd newydd.

Mae Prys wedi bod yn arwain y ffordd ar drawsnewid y rhaglen dros y tair blynedd diwethaf ac mae wedi bod yn sicrhau bod y Rhaglen Datgarboneiddio yn cael blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru a Chymru.

Diolch yn fawr

